

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ebrill 2016

Presennol, Gareth Wynne Chairman, Gwawr Jones, Meirion Owen, Gareth Parry, Siân Godbert, Karen Pugh, Jim Boughton, Janet Charlton, Terry Bullock, Cyng. Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau Marion Bettenev.

Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fawrth 2016.

(1)Yr Heddlu

Yr oedd Phil Gales SCCH yr heddlu, yn bresennol a chafwyd trafodaeth gyffredinol am faterion lleol, dywedodd hefyd bod APCE yn bwriadu gosod camerâu ym meysydd parcio Ffordd yr Orsaf yn dilyn lladrad o'r peirannau talu ac arddangos yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

[1.1] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd bod y cwmni argraffu yn pryderu ynglŷn â hawlfraint copio ar gyfer y daflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i drafod y mater ymhellach.

[1.2] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Nodwyd bod y mater yn parhau. Cytunodd y Cyng. Elisabeth Roberts i wneud ymholiadau.

[1.3] Goleuadau Nadolig

Y clerch i drefnu prynu 3 golau ychwanegol, ar gyfer Nadolig 2016.

[1.4] Casglu Arian/Rhaeadr Ewynnol

Eglurodd y clerch ei fod yn cwrdd cynrychiolydd o'r cwmni casglu arian ar y 12fed Ebrill 2016.

[1.5] Cyfleuster Parcio i'r anabl ger Swyddfa'r Bost

Dywedodd y clerch nad oedd dim gair pellach oddigerth cydnabyddiaeth ERF wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ynglŷn â chais i gael ail baentio'r llinellau gwyn i arddangos y cyfleuster parcio. Cytunodd y Cyng. Elisabeth Roberts i barhau ymlaen a'r mater.

Brif Agenda

[1.7] Materion Cynllunio

Adeiladu estyniad deulawr, Wenllys, Betws-y-Coed.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Mawrth 2016.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2016.

[1.9] Cytundeb Rheoli Cae Llan

Adroddodd y Cadeirydd ei fod gyda'r clerc, wedi cwrdd dau gynrychiolydd o'r Cyngor Sir ac wedi datgan pryder ynglŷn â'r rhent blynyddol o £300.00, gan ystyried y derbyniad ariannol gwael am logi'r cae.

Roedd y Cyngor Sir pryn bynnag yn barod i ostwng y rhent i £200.00. Penderfynwyd cytuno i dalu'r swm gan geisio cyfarfod pellach gyda'r Cyngor Sir cyn adnewyddu'r cytundeb yn 2017.

[2] Nadolig Betws-y-Coed

Dywedodd y clerc bod bwriad gan Nadolig Betws-y-Coed I geisio creu mynediad parhaol i'r cae o faes parcio Ffordd yr Orsaf, byddai hyn yn osgoi'r costau i symud y clawdd a'i ail sefydlu yn flynyddol. Awgrymodd y Cyng. Elisabeth Roberts mai gwell fyddai yn y lle cyntaf trafod y cynlluniau gyda Mr Richard Thomas APCE.

[2.1] Ychwanegiad Tal/ Gweithwyr Ciosg Rhaeadr Ewynnol

Yn gytûn a chanllawiau'r Llywodraeth, penderfynwyd codi cyflogau'r ddau weithiwr ciosg o £6.50 yr awr i £7.50 yr awr.

[2.2] Damwain/Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clerc iddo dderbyn gair bod damwain wedi digwydd yn y Rhaeadr Ewynnol ar yr 8fed Ebrill ac i'r Gwasanaeth Ambiwlans gael trafferth wrth geisio mynediad.

Penderfynwyd trosglwyddo goriadau ar gyfer mynediad i ymatebwr cyntaf yr ardal Mr Tomos Hughes.

[2.3] Sedd Wag y Cyngor

Nodwyd llythyr gan Mr Nick Corney, Millrace Cottage, Pentre Felin, Betws-y-Coed yn dymuno bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Eglurodd y clerc pan i'r sedd eisoes gael ei hysbysu a ni dderbyniwyd unrhyw gais. Penderfynwyd gwahodd Mr Corney yn aelod cyfethol o'r Cyngor yn amodol ar gyngor y Cyngor Sir ar y mater.

[2.4] Baw Cwn/Cae Chwarae Pentre' Du

Y clerc i gesio arwyddion ar y giât mynediad i'r cae.

[2.5] Gweithiwr Pentref Betws-y-coed

Y clerc i anfon gair o werthfawrogiad am y gwaith gan aelod o'r Cyngor Sir o gwmpas y pentref.

[2.6] Cotswolds

Penderfynwyd cytuno i gais gan Cotswolds i osod wal ddringo ar y cae yn ystod gwyliau'r banc yn niwedd Mai, yn amodol bod insiwrans ar gyfer y cyhoedd ganddynt a dogfen asesiad risg. Y clerc i wneud ymholiad a fyddent yn codi tal am ddringo'r wal.

[2.7] Band Pres/Cae Llan 24ain Orffennaf 2016

Cytunodd y Cyng. Jim Boughton i wneud ymholiadau ynglŷn â benthyg cadeiriau o Neuadd yr Eglwys ar y prynhawn Sul 24ain Orffennaf.

Cadeirydd_____